**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/VG/0538/21

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

13 Chwefror 2021

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021**

Yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn heb gydymffurfio a'r confensiwn 21 diwrnod a bydd yn dod i rym cyn iddo gael ei osod. Amgaeaf gopi o'r offeryn statudol a bwriadaf osod hwn a Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ar Ddydd Llun 15 Chwefror 2021.

Mae'r offeryn statudol hwn yn cyflwyno mesurau ychwanegol i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i fynd i'r afael â'r risg i iechyd y cyhoedd a achosir gan amlder a lledaeniad amrywiolion o'r coronafeirws.

Mae'r mesurau ychwanegol hyn yn cynnwys system brofi newydd ar gyfer pobl 5 oed neu hŷn sy'n cyrraedd Cymru (yn amodol ar nifer cyfyngedig o eithriadau), sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt drefnu a chael profion ar ddiwrnod 2 ac 8 eu cyfnod o hunanynysu. Bydd methu â gwneud hynny yn drosedd, ac yn eu gadael yn agored i ddirwy. Bydd methu â chael y ddau brawf hefyd yn golygu bod y cyfnod hunanynysu yn cael ei ymestyn i 14 diwrnod.

At hynny, mae mesurau pellach yn cael eu cymryd mewn perthynas â gwledydd sydd eisoes wedi'u nodi fel rhai risg uwch oherwydd cysylltiadau ag amrywiolion y coronafeirws ("gwledydd rhestr goch") er mwyn diogelu ymhellach rhag y risg o drosglwyddo gwahanol amrywiolion yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys gwahardd person sydd wedi bod mewn gwlad sydd ar y rhestr goch yn ystod y 10 diwrnod diwethaf rhag dod i Gymru o 4am ar 15 Chwefror 2021, a bydd methu â chydymffurfio â'r cyfyngiad hwn yn drosedd, ac yn eu gadael yn agored i ddirwy. Os bydd teithwyr o'r fath yn cyrraedd porth dynodedig yn Lloegr neu'r Alban, bydd yn ofynnol iddynt ymrwymo i gyfnod cwarantin rheoledig yn unol â'r rheoliadau a ddaw i rym yno ddydd Llun 15 Chwefror 2021.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod a dod â hwy i rym cyn iddynt gael eu gosod, yn caniatáu i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd; a pharhau â'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ymagwedd pedair gwlad tuag at deithio rhyngwladol, o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services